OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2099 (Cy.225)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cyffordd Cwm-ffrwd i Gyffordd Llanddarog, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *25 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *5 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (A48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd a'i gyfyngu oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn yr A48 (Cyffordd Cwm-ffrwd i Gyffordd Llanddarog, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei defnyddio at y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18.00 o'r gloch ar 5 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, droi i'r dde ar y darn o'r gyffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd, heblaw cerbyd esempt, mewn modd sy'n peri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis fan bellaf.

*G Morgan*

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

25 Awst 2011

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLENNI

## ATODLEN 1

### GWAHARDDIAD DROS DRO AR DROI I'R DDE

Y troad i'r dde ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin wrth gyffordd Nant-y-caws, Sir Gaerfyrddin.

## ATODLEN 2

### GRADDAU'R TERFYNAU CYFLYMDER DROS DRO O 40 A 10 MYA A'R GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt canol Cyffordd Cwm-ffrwd hyd at bwynt canol Cyffordd Llanddarog, yn Sir Gaerfyrddin.